



North Wales Organisation for
Randomised Trials in Health & Social Care
Sefydliad Hap-Dreialon Iechyd
a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Sefydliad Hap-Dreialon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru (NORTH)

18 19



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2018-19
Adroddiad Blynyddol

CYNNWYS

Rhagair	3
Crynodeb Lleyg	4
NWORTH Organogram	5
Y Tîm	6
Uchafbwyntiau	8
Llwyddiannau Allweddol	12
PARC-Bangor	13
Cymuned o Ysgolheigion	14
Lledaenu ac Ymgysylltu	15
Edrych Ymlaen	16
Casgliadau	18



Mae Sefydliad Hap-dreialon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru, (NORTH), yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae Sefydliad Hap-dreialon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru, (NORTH), yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn olaf ein grant seilwaith presennol, (2015-2020), gallwn ystyried cyflawniadau, datblygiadau a gweithgarwch NORTH dros y cyfnod hyd yma.

Cenhadaeth NORTH yw gwella iechyd a lles pobl Cymru a thu hwnt trwy werthuso ymyriadau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo theori ac ymarfer hap-dreialon rheoledig a methodolegau trylwyr eraill.

Mae NORTH yn parhau i berfformio'n gryf wrth gyflawni'r genhadaeth hon. Erbyn hyn mae gennym bortffolio o 22 o astudiaethau gweithredol gyda chyfanswm gwerth grant cynyddol (mae cyfanswm gwerth grant cyfartalog yn y cyfnod cyllido hwn wedi cynyddu 36%), gyda chyfradd llwyddiant gyson o dros 36%, (h.y. dyfernir dros draean o'r holl geisiadau amlinellol). Ein Hadenillion ar Fuddsoddiad ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar hyn o bryd yw 2.6:1 ar gyfer Cymru a 13.6:1 ar gyfer incwm ar draws y Deyrnas Unedig (DU).

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf (2018-2019) ac yn dangos sut yr ydym wedi rhagori ar yr holl dargedau a osodwyd yn 2017 o ran datblygu ein portffolio a chaffael grantiau. Yn ystod 2018-19, dyfarnwyd i ni chwech astudiaeth newydd, ac mae cyfanswm gwerth y grantiau hynny dros £9.94 miliwn.

Mae ein llwyddiant ar draws portffolio Canolfan Cydlynu Gwerthusiadau, Treialon ac Astudiaethau NIHR (NETSCC) (76% o astudiaethau NORTH) yn amlygu ein gallu i weithio gyda gwahanol fathau o ran-ddeiliaid, o ail-ddylunio gwasanaethau (NIHR HS&DR), i werthuso technolegau iechyd (NIHR HTA), i weithio gyda chartrefi gofal (NIHR PHR) a datblygu dulliau gweithredu newydd yng nghyswllt gofal (NIHR PGfAR).

Mae tair o'n hastudiaethau deintyddol diweddar neu barhaus wedi arwain at fentrau sy'n berthnasol i bolisi, ac wedi'u cynnwys yn yr ymateb gan y Prif Swyddog Deintyddol i 'Dyfodol Iachach i Gymru' (Cyfadran Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol; Rhwydwaith Ymchwil Deintyddol Cymru a Diwygio Contractau Cymru).

Ym Mlwyddyn Pedwar, lanswyd ein grŵp cynnwys y cyhoedd, PARC -Bangor. Mae PARC-Bangor yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n gweithio gyda ni i roi eu barn, cynghori a rhoi sylwadau ar ddyluniad a datblygiad ein hymchwil, blaenoriaethau ymchwil, arferion gwaith a deunyddiau ymchwil.

Mae Blwyddyn Pedwar wedi gweld cynnydd pellach mewn ymchwil fethodolegol yn yr Uned. Rydym wedi ennill cyllid i sefydlu Set Canlyniad Craidd (Datblygu canlyniad Craidd a osodwyd ar gyfer ymchwil i wasanaethau iechyd deintyddol yn cynnwys oedolion hŷn dibynnol: DECADE) ac rydym wedi cwblhau ffrwd waith ar gyfer Cam Gweithredu Cydlynu a Chymorth yr Undeb Ewropeaidd (Horizon SC1-HCO-06 -2016), ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu rhai o nodweddion ein gwaith dros y cyfnod 2018-19. Yn y tudalennau sy'n dilyn, fe welwch sut mae NORTH yn gweithio i gefnogi rhagoriaeth ymchwil yng Nghymru trwy ddatblygu a darparu treialon clinigol o'r ansawdd uchaf. Y tu ôl i holl gyflawniadau NORTH mae tîm ymroddedig o staff arbenigol sy'n chwilio'n barhaus am ffyrdd i arloesi, gwella a thrawsnewid sut mae treialon yn cael eu darparu i alluogi ansawdd, effeithlonrwydd ac effaith.



Yr Athro Paul Brocklehurst
Cyfarwyddwr NORTH

CRYNODEB LLEYG

Pwy ydym ni a beth ydym ni'n ei wneud? Mae NWORDH yn un o dair Uned Treialon Clinigol yng Nghymru. Cawn ein hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, (rhan o Lywodraeth Cymru). Unedau ymchwil yw Unedau Treialon Clinigol, (CTUs), sy'n dylunio, rheoli a darparu treialon clinigol ac astudiaethau eraill.

Mae treial clinigol yn fath o astudiaeth a ddefnyddir i brofi a yw ymyrraeth yn gweithio ai peidio. Gall ymyriadau fod yn driniaethau, yn therapïau neu'n feddyginiaethau. Mae treialon clinigol yn ein helpu i ddeall a yw'r ymyriadau hyn yn gwella iechyd pobl. Gall hyn gynnwys ymchwil i ddeall sut mae ymyriadau neu feddyginiaethau yn gweithio. Gallwn ddysgu a ydyn nhw'n gwella pobl, yn lleihau eu symptomau neu'n gwella sut maen nhw'n teimlo.

Gall treialon clinigol hefyd ein helpu i ddeall a oes unrhyw sgîl- effeithiau diangen i ymyriadau neu driniaethau. Maent yn ein helpu i ddeall a yw buddion triniaeth yn fwy na risgiau'r driniaeth honno. Gallant ddweud wrthym pa grwpiau

Mae NWORDH yn cynnwys tîm o arbenigwyr sy'n cydweithio i ddylunio, cydlynu a darparu treialon clinigol cymhleth.

o bobl a allai elwa fwyaf, a faint fydd ymyriadau yn ei gostio.

Mae NWORDH yn cynnwys tîm o arbenigwyr sy'n cydweithio i ddylunio, cydlynu a darparu treialon clinigol cymhleth. Mae hyn yn cynnwys Ystadegwyr, Ymchwilwyr, Rheolwyr Data, Arbenigwyr TG, Rheolwyr Treialon, Swyddogion Sicrhau Ansawdd, Methodolegwyr a Gweinyddwyr. Mae NWORDH yn gweithio gyda thimau ymchwil yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

Oherwydd bod gan NWORDH yr arbenigedd a'r profiad sydd eu hangen i gefnogi treialon clinigol, gallwn wneud y broses o gynnal treial clinigol yn haws i dimau ymchwil. Rydym yn sicrhau bod astudiaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno i'r


ansawdd uchaf. Mae hyn yn golygu bod y dystiolaeth a gynhyrchir ar y diwedd yn fwy cadarn ac yn fwy tebygol o newid ymarfer.

Un o fuddion allweddol gweithio gydag NWORDH yw bod ein tîm o arbenigwyr wedi dod ar draws y mwyafrif o broblemau sy'n codi gyda threialon clinigol o'r blaen. Felly gallant ddod o hyd i atebion yn gyflym, gyda chyfraniad nifer o aelodau'r tîm.

Mae Treialon Clinigol yn aml yn anodd ac yn heriol. Fe'i cyflwynir gan dimau ac mae angen timau o arbenigwyr arnynt mewn sawl maes i'w galluogi i fod yn llwyddiannus. Mae cael Uned Treialon Clinigol ar gael i gefnogi'r broses gymhleth hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n golygu bod gan ymchwilwyr ddiogelwch a sefydlogrwydd trwy gydol eu taith o gynllunio treialon i gyflawni treialon.



NWORTH ORGANOGRAM



Key:

- Bangor University Institutional Funding
- H&CRW Core Funding
- Project Funding
- Mixed Funding

Y TÎM



Tîm amlddisgyblaethol yw NWORD, sydd wedi'i rannu rhwng pedair prif swyddogaeth: Technoleg Gwybodaeth, Rheoli Treialon, Ystadegau a Sicrhau Ansawdd.

Goruchwylyr yr Uned gan Bwyllgor Gweithredu NWORD gydag arweiniad uwch gan gydweithwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Bangor. Mae NWORD yn Grŵp Ymchwil allweddol yn Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor, (BIHMR). Fel y cyfryw, mae'r Uned wedi'i lleoli o fewn strwythur ehangach y Brifysgol, gyda strategaeth ymchwil gyffredinol a chysylltiadau cryf â Grwpiau Ymchwil eraill.

Mae Grŵp Gweithrediadau Craidd NWORD, (COG) yn cwrrdd yn wythnosol ac yn monitro pob astudiaeth sy'n cael ei darparu gan NWORD. Mae hefyd yn adolygu pob cais cydweithredu sy'n dod i mewn i'r Uned ac yn sicrhau ein bod yn perfformio yn unol â'r cynllun a chyflawni yn ôl y targed.

Aelodau Tîm y Grŵp Gweithrediadau Craidd (o'r chwith i'r dde): Alison Jenkins, Paul Brocklehurst, Ian Woodrow, Jean Ryan, Zoe Hoare.



NWORTH Clinical Trials Unit
 Developing and Supporting Quality Clinical Research

NWORTH, the Bangor Trials Unit, is a UK Clinical Research Collaboration (UKCRC) fully registered Clinical Trials Unit, which specialises in the design, conduct, analysis and reporting of clinical trials. NWORTH offers a flexible and integrated approach, comprising of a multi-disciplinary and multi-functional team undertaking pragmatic multi-centred randomised controlled trials (RCTs) to evaluate complex interventions in health and social care.

Mae Uned Treialon Bangor (NWORTH) yn Gydwelbrediad Ymchwil Clinigol y DJ (UKCRC) yn uned dreialon glinigol wedi ei chofrestru'n llawn. Mae'n arbenigo mewn cynllunio, cynnal, dadansoddi ac adrodd ar dreialon clinigol. Mae NWORTH yn cynnig dulli hyblyg ac integredig o weithredoedd, ac mae'n cynnwys tîm amlddisgyblaethol ac amlywyddogaethol sy'n cynnal hap-dreialon rheoleddig pragmatolaidd mewn nifer o ganolfannau er mwyn gwerthuso ymyrddau cymhleth mewn gofal iechyd a chymdeithasol.

We work with Research Networks across the UK to:

- Enhance the number, quality and progress of pragmatic randomised trials and other rigorous evaluation studies in Wales or led from Wales.
- Develop expertise and teamwork, which is recognised both nationally and internationally.
- Develop, coordinate, support, analyse and report trials throughout the UK and beyond.
- Enhance collaborative research and joint initiatives within the health care industry.

Rydym yn gweithio gyda rwydweithiau ymchwil ledled Prydain i:

- Gwella nifer, ansawdd a chynnwys y treialon ar hap pragmatig ac astudiaethau gwerthuso trwyddi eraill yng Nghymru neu a arweinir o Gymru.
- Datblygu arbenigedd a gwaith tîm, a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Datblygu treialon ar draws Brydain a thu hant, eu rheoli, ac adrodd arnynt.
- Gwella ymchwil a mentrau ar y cyd o fewn y diwydiant gofal iechyd.

CHIGC Uned Treialon Clinigol
 Datblygu a Chefnogi Ymchwil Clinigol o Ansawdd

nworth-ctu.bangor.ac.uk
NWORTH@bangor.ac.uk
 01248 388095

Partners: Bangor University, Health and Care Research Wales, UKCRC, UKCRC Programme Bangor Trials Unit.

Meirion
 Uned Dreialon Bangor
 Bangor Trials Unit

Aelodau'r Grŵp Gweithrediadau Craidd (COG):

- **Yr Athro Paul Brocklehurst**, (Cyfarwyddwr a Chadeirydd yr Uned Treialon Clinigol)
- **Jean Ryan**, (Rheolwr yr Uned ac Arweinydd Gweithrediadau)
- **Dr Zoe Hoare**, (Prif Ystadegydd ac Arweinydd Ystadegau)
- **Ian Woodrow**, (Uwch Beiriannydd Meddalwedd ac Arweinydd IS)
- **Alison Jenkins**, (Uwch Reolwr Treialon ac Arweinydd Rheoli Treialon)
- **Dr Kirstie Pye**, (Swyddog Sicrhau Ansawdd ac Arweinydd Sicrhau Ansawdd) / **Debbie Skelhorn**, (Swyddog Sicrhau Ansawdd dros gyfnod mamolaeth ac Arweinydd Sicrhau Ansawdd)

Staff N WORTH

- Ystadegau:**
- Dr Andrew Brand
 - Dr Nia Goulden
 - Rachel Evans
- Systemau Gwybodaeth:**
- Lexi Bastable
 - Sion Griffiths
 - Lisa Atkins
- Rheoli Treialon:**
- Chris Woods
 - Hana Pavlickova

- LLAIS a PARC-Bangor:**
- Dr Llinos Spencer
- Arweinydd Gofal Cymdeithasol:**
- Dr Gill Toms
- Datblygu Treialon:**
- Dr Karolina Rusiak
 - Greg Flynn
- Gweinyddu:**
- Karen Law

UCHAFBWYNTIAU:

Mae 2018 - 2019 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i N.WORTH. Mae rhai o'n huchafbwyntiau wedi'u crynhoi isod...

Datblygu Portffolio

Rydym yn parhau i adeiladu portffolio cryf o astudiaethau gyda chyfanswm gwerth grant cynyddol (mae cyfanswm gwerth grant cyfartalog yn y cyfnod ariannu hwn, 2015-2020, wedi cynyddu 36%). Rydym wedi cynnal ein cyfradd llwyddiant cyllido yn gyson ar dros 36%, h.y. dyfernir dros draean o'n ceisiadau amlinellol. Mae hyn yn tynnu sylw at ansawdd ein grantiau a'n prosesau mewnol.

Yn ystod 2018-2019 gwnaethom gyflwyno 16 cais am gyllid ac ychwanegu chwe astudiaeth ar raddfa fawr i'n portffolio - gyda chyfanswm gwerth grant o £9.94M.

Ar hyn o bryd mae gennym 22 o astudiaethau gweithredol ar ein portffolio gyda chyfanswm gwerth grant o £21.84M. Mae pedair astudiaeth arall wedi'u cyflwyno ar hyn o bryd - pob un ar y cam llawn a chydychyfanswm gwerth grant o £3.16M.



Treial REMEDY

Mae hwn yn dreial cyfochrog, sengl-ddall ar hap a gynhelir mewn nifer o ganolfannau. Nod yr astudiaeth yw ymchwilio i weld a all newid meddyginiaeth wrth-seicotig, ymhlith pobl â sgitsoffrenia, wella camweithrediad rhywiol. Ariennir yr astudiaeth gan NIHR HTA, ac mae'n cael ei harwain gan yr Athro Mike Crawford o Goleg Imperial Llundain. Yn ystod 2018-19 llwyddwyd i roi

Systemau Cipio Data Electronig, Arolwg Ar-lein a Dewis ar Hap Treial REMEDY ar waith fis yn gynt na'r disgwyl. Roedd hyn yn cynnwys dylunio a darparu system arolwg bwrpasol yn ychwanegol at y gronfa ddata MACRO arferol a system dewis ar hap. Er mwyn sicrhau bod y tair system yn cael eu rhoi ar waith gynt na'r disgwyl, defnyddiwyd dulliau newydd o ddilysu systemau a gweithio mewn tîm ochr yn ochr i gywasgu'r amserlenni profi arferol. Fe wnaeth y gwaith hwn alluogi i'r gwaith o ddechrau recriwtio ar gyfer yr astudiaeth gychwyn yn llyfn ac yn effeithlon ac mae recriwtio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.



Astudiaeth SYNIAD

Yn ystod 2018, fe wnaethom gwblhau'r gwaith o reoli data ar gyfer yr astudiaeth IDEAL yn llwyddiannus. Daw hyn â phedair blynedd o fewnbynnu data a rheoli data i ben ar gyfer yr astudiaeth garfan arhydol hon. Arweinir IDEAL gan yr Athro Linda Clare ym Mhrifysgol Caerwysg a dyma'r astudiaeth fwyaf o fyw'n dda gyda dementia yn y DU. Bydd y dystiolaeth a gynhrychir o'r astudiaeth hon yn galluogi datblygu polisi, ymyriadau a mentrau newydd i drawsnewid bywydau pobl â dementia a'u gofalywr.

Bu i N.WORTH fewnbynnu 15,943 o lyfrynnau i mewn i MACRO ar gyfer y set ddata IDEAL. Roedd hyn yn cynnwys 8,682 o lyfrynnau i bobl â dementia a 7261 i ofalwyr.

Roedd y system mewnbynnu a rheoli data a ddatblygwyd ar gyfer y project IDEAL yn cynnwys llunio system olrhain llyfrynnau pwrpasol, llunio a dilysu system sganio data teleform a dylunio a dilysu system trosglwyddo data i uwchlwytho'r data wedi'i sganio i'r gronfa ddata astudiaeth MACRO a luniwyd ac a ddilyswyd o'r newydd hefyd gan ddefnyddio system cipio data electronig MACRO.

O ran adnoddau staff, mae hyn wedi cymryd ymdrech enfawr - yn bennaf gan ein tîm TG, ein tîm Data a'n tîm Sicrhau Ansawdd. Mae'r wybodaeth a ddatblygwyd a'r nifer fawr o weithgareddau profi a dilysu i sicrhau bod yr holl systemau'n gweithredu'n briodol, ac yn arwain at system mewnbynnu a rheoli data di-dor ar gyfer bron i 16,000 o lyfrynnau, wedi bod yn dyst i waith tîm N.WORTH.

Astudiaeth WASH

Er mwyn lleihau'r risg o ganser y coluddyn, mae Rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn y GIG yn gwahodd pobl 55 oed i gael sigmoidosgopi. Arweinir yr Astudiaeth WASH, (Sigmoidosgopi Hyblyg gyda Chymorth Dŵr mewn Sgrinio Cwmpas y Coluddyn Cenedlaethol), gan yr Athro Matt Rutter, (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gogledd Tees a Hartlepool) a bydd yn asesu a fydd defnyddio dŵr i leihau chwyddiant y coluddyn, yn hytrach na nwy, yn gwneud y weithdrefn yn fwy

cyfforddus. Os profir yn effeithiol mewn ymarfer yn y DU, mae'r tîm ymchwil yn gobeithio trwy leihau'r boen y bydd pobl yn cael gwell profiad, a allai gynyddu nifer y cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol. Llwyddodd yr astudiaeth i gyrraedd ei tharged recriwtio, a recriwtio claf rhif 1,100 i'r astudiaeth eleni. Mae hwn wedi bod yn gyflawniad enfawr ac mae'n adlewyrchiad gwych o waith caled y tîm ymchwil a pharodrwydd cyfranogwyr yr astudiaeth i gymryd rhan. Bydd N.WORTH yn dechrau dadansoddi'r data yn yr hydref.

Astudiaeth H-T

Mae N.WORTH ar hyn o bryd yn rhedeg yr astudiaeth NIHR HS a ariennir gan DR: "Can H-Ts maintain the oral health of routine low-risk dental recall patients in 'high-street' dental practices": astudiaeth beilot. O ganlyniad i ddata sy'n dod i'r amlwg o'r astudiaeth, comisynnodd y Prif Swyddog Deintyddol Gyfadran Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol Cymru Gyfan (£406,872 dros bum mlynedd). Bydd hwn yn darparu llwyfan i gyfoethogi'r amgylchedd hyfforddi ynghyd â gallu, lles ac ymgysylltiad gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol ledled Cymru (www.awfdcp.ac.uk). Mae hyn yn gysylltiedig â rhaglen barhaus Diwygio Contractau Deintyddol y GIG, y mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn ei gwerthuso.

Diweddariad ar Astudiaethau ADENOMA a B-ADENOMA

Yn adroddiad blynyddol y llynedd gwnaethom amlinellu llwyddiant astudiaethau Adenoma a B-Adenoma wrth ganfod canser y coluddyn yn gynnar. Ymchwiliodd y ddwy astudiaeth i'r ddyfais Endocuff Vision i wella delweddu mwcosaid. Mae canllawiau NICE yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer Endocuff Vision i gynorthwyo â delweddu yn ystod colonosgopi. Disgwylir dyddiad cyhoeddi disgwylidig i'r broses ar 7 Mehefin 2019, ac ystyrir bod ADENOMA yn astudiaeth allweddol.

Gwerthuso Contract GIG Gogledd Iwerddon

Rhwng 2015 a 2018, arweiniodd y Cyfarwyddwr astudiaeth HS&DR NIHR "Gwerthusiad o Effaith Newid Taliadau Darparwyr ar Effeithlonrwydd Technegol ac Ansawdd Gofal a Ddarperir gan Feddygon Teulu Cyffredinol y GIG yng Ngogledd Iwerddon" (£478,918). Ymchwiliodd yr astudiaeth hon i effaith newid mewn taliadau ar weithgaredd clinigol yng Ngwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG ledled y Dalaith ac unrhyw effaith ar ansawdd y gofal a ddarparwyd, oherwydd y newid.

Cwblhawyd yr astudiaeth yn 2018, a dangosodd y canlyniadau bod newidiadau sylweddol a chyflym mewn patrymau gofal wedi digwydd pan symudodd deintyddion GIG 'stryd fawr' o ffi am wasanaeth, i system tâl y pen.

Mae'r canlyniadau wedi llywio'r cynlluniau parhaus ar gyfer diwygio contractau'r GIG yng Ngogledd Iwerddon ac wedi dylanwadu ar broses barhaus diwygio contractau'r GIG yng Nghymru. Fel uchod, arweiniodd at gomisiynu'r Cyfarwyddwr ymhellach i gynnal gwerthusiad o gontract y GIG ar gyfer Llywodraeth Cymru (a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2019).

Sicrhau Ansawdd

Mae ansawdd yn sail i bopeth a wnawn. Mae ein prosesau sicrhau ansawdd yn caniatáu inni fonitro perfformiad, cydymffurfiaeth reoliadol a rheoli risg.

Yn ystod 2018-2019 fe wnaethom adolygu a diweddarau 26 o'n trefniadau gweithredu safonol, (SOPs). Mae 100% o'n SOPs yn gyfredol. Bu i ni hefyd ddiweddarau wyth cyfarwyddyd gwaith. Cynhaliwyd 27 archwiliad mewnol - dim un â chanfyddiadau beirniadol.

Treuliwyd amser sylweddol eleni ar systemau archifo N.WORTH. Rydym wrthi'n adnewyddu gofod ychwanegol er mwyn ehangu ein gofod archifo a chaniatáu

storfa ddiogel ddigonol ar gyfer archifo'r astudiaeth IDEAL sydd ar ddod. Cwblhawyd y gwaith o archifo astudiaeth GREAT, ac mae archif y treial FOLATED wedi'i pharatoi i'w dinistrio.



Datblygu Methodoleg

Un o swyddogaethau allweddol unrhyw uned dreialon yw'r cyfraniad y gall ei wneud i ymchwil fethodolegol a'n dealltwriaeth o sut y gellir gwella prosesau treialu. I'r perwyl hwn, mae N.WORTH yn ymdrechu i gyfrannu at y sylfaen wybodaeth mewn methodoleg treialon, gan archwilio dulliau arloesol o ddylunio treialon.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyflwynodd y Cyfarwyddwr a'r Prif Ystadegydd Ddosbarth Meistr Treialon N.WORTH yn Ysgol Haf Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor. Fe wnaethom benodi Darlithydd newydd mewn Gwyddor Gweithredu, Dr. Lorelei Jones ym mis Medi 2018. Ar hyn o bryd mae Dr Jones yn adolygu'r defnydd o fframweithiau damcaniaethol a gweithredu mewn treialon cyfredol ac arfaethedig o ymyriadau cymhleth. Mae wedi cyflwyno crynodeb i'r pumed Gynhadledd Methodoleg Treialon Clinigol Rhyngwladol a gynhelir yn Brighton ym mis Hydref.

Cyhoeddwyd ein gwaith gyda Pete Bower ar 'Studies Within a Trial' yn Trials: Rick, J. et al "Doing trials within trials: a qualitative study of stakeholder views on barriers and facilitators to the routine...

HIGHLIGHTS CONTINUED...

adoption of methodology research in clinical trials”
Trials 2018, 19(1): 481.

Mae'r Cyfarwyddwr yn gydymgeisydd ar astudiaeth a ariennir gan yr MRC i edrych ar 'Studies Within a Trial' (PROMETHEUS), dan arweiniad yr Athro David Torgeson o Brifysgol Efrog. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi ennill cyllid i sefydlu Set Canlyniadau Craidd (DEvelopment of a Core outcome set for orAl health services research involving DEpendent older adults: DECADE) ac wedi cwblhau llif gwaith ar gyfer Gweithredu Cydlynw a Chefnogi'r Undeb Ewropeaidd (Horizon SC1-HCO- 06-2016), ar ran Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd ein Prif Ystadegydd boster yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Hydref o'r enw: "Golwg ddiuedd ar gyfraddau recriwtio mewn astudiaethau peilot allanol: Persbectif Uned Treialon Clinigol".

Adeiladu Cydweithrediadau

Mae proffil yr Unded a llwyddiant parhaus ein portffolio yn dibynnu ar adeiladu cydweithrediadau sy'n arwain at geisiadau cyllido llwyddiannus ar raddfa fawr, gan arwain yn y pen draw at dreialon clinigol o ansawdd uchel sy'n cael effaith.

Mae ein llwyddiant ar draws ystod portffolio NETSCC (76% o astudiaethau NWORDH) yn tynnu sylw at ein gallu i weithio gyda gwahanol fathau o ran-ddeiliaid, o ail-ddylunio gwasanaethau (HS&DR NIHR), i werthuso technolegau iechyd (HTA NIHR), i weithio gyda chartrefi gofal (PHR NIHR) a datblygu dulliau newydd o ofal (PGfAR NIHR).

Bu i ni adolygu 17 cais cydweithredu yn COG eleni gyda 13 yn symud ymlaen i ddatblygu cynigion ymhellach, (dros dri chwarter). Daw llawer o'r busnes i'r Unded trwy fusnes ailadroddus gan gydweithredwyr blaenorol, neu trwy argymhellion gan Ben-ymchwilwyr presennol (CI).

Fe wnaethom barhau i gwrdd yn rheolaidd â'r Cyfarwyddwr Dros Dro Ymchwil a Datblygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, (BCUHB) a mynd i lansiad Canolfan Ymchwil Glinigol Gogledd Cymru yn Wrecsam, a rhoi cyflwyniad yno ym mis Mehefin 2018 er mwyn cysylltu ag ymchwilwyr allweddol a hyrwyddo NWORDH a'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil, (RDCS). Fe wnaethom hefyd gymryd rhan yn lansiad hwb Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd ym mis Medi, a rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd Gwella Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Ebrill. Gwnaethom gyfarfod â thîm uwch Gweithlu Ymchwil y Bwrdd Iechyd a rhoi cyflwyniad iddynt er mwyn trafod syniadau ynghylch y dulliau gorau o ddatblygu ymchwil o fewn y Bwrdd Iechyd.

Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil

Mae ein gwaith ar yr RDCS yn ymwneud â'n cefnogaeth barhaus i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Yma, rydym yn cefnogi eu staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu cynigion ymchwil o ansawdd uchel, y gellir wedyn eu cyflwyno i'w hariannu. Mae'r RDCS yn darparu cyngor ac arweiniad yn unol â Siarter RDCS i alluogi darpar ymchwilwyr i nodi ffynonellau cyllid priodol a datblygu eu syniad neu gynnig ymchwil i safon uchel.

Mae'r ymateb a'r nifer sy'n derbyn y gwasanaeth yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, cawsom flwyddyn brysur o hyd wrth inni ganolbwyntio ar hyrwyddo'r gwasanaeth ac ymgysylltu â darpar ymchwilwyr.

Cyfrannodd yr RDCS gan roi cyngor i 18 o atgyfeiriadau unigryw, (datblygwyd dau yn geisiadau Llwybr at Bortffolio a chyflwynwyd un fel cais HTA NIHR). Mynychodd aelodau tîm RDCS wyth cyfarfod gyda'r Byrddau Iechyd priodol, gan ddarparu saith sesiwn galw



heibio wyneb yn wyneb ledled gogledd a chanolbarth Cymru, a mynychu naw digwyddiad i hyrwyddo'r gwasanaeth.

Diweddarwyd gwefan RDCS NWORDH yn llwyr, a chwblhawyd cyflwyniad Panopto newydd (yn Saesneg a Chymraeg), i gynghori am y gefnogaeth sydd ar gael. Prynwyd rhagor o ddeunyddiau hyrwyddo i gynyddu ein hamlygrwydd gyda darpar ymchwilwyr.

Mae Dr Llinos Spencer, sy'n cynrychioli LLAIS (Gwasanaeth Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth iaith), wedi parhau i gyfrannu'n llawn at wasanaeth RDCS Cymru gyfan ac wedi mynychu a chyflwyno mewn nifer o ddiwyddiadau i dynnu sylw at y Mesurau Iechyd Cymru sydd ar gael, a hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith i ymchwilwyr ar draws Cymru.

LLAIS

Mae NWORD wedi ymrwymo i sensitifrwydd iaith a diwyllianol, a thrwy ein Gwasanaeth Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith (LLAIS), rydym yn cyfieithu ac yn dilysu yn ieithyddol o leiaf un mesur iechyd y flwyddyn ar gyfer yr isadeiledd ymchwil ledled Cymru. Rydym yn sicrhau bod ymchwil sy'n cael ei gwneud gan NWORD yng Nghymru yn diwallu anghenion ieithyddol pobl Cymru ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol gofynnol.

Roeddem yn falch o groesawu Beryl Cooledge fel Cyfarwyddwr newydd LLAIS yn 2018. Cyflwynodd Dr Llinos Haf Spencer a Beryl Cooledge sesiwn ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn Ysgol Haf yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor ar 4 Gorffennaf 2018.

Holiadur iechyd byd-eang yw'r PROMIS -10 sy'n cynnwys 10 cwestiwn. Yn ystod haf 2018, cwblhawyd dilysiad ieithyddol mesur PROMIS-10, a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac mae bellach ar gael ar wefan micym.org. Roedd y gweithgareddau dilysu yn cynnwys cyfraniad gan ddeuddeg aelod o'r cyhoedd mewn grwpiau ffoecs a chyfweliadau. Cyflwynwyd poster yn manylu ar y gwaith hwn yn y Gynhadledd Defnyddwyr Mesurau Iechyd yn Chicago ar 5 Mehefin 2019.

Dosbarthwyd holiadur LLAIS i 196 o ran-ddeiliaid ym mis Chwefror 2019. Yn dilyn hyn, ac ar ôl rhagor o ymgynghori gyda chydweithwyr yn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cytunwyd i ddilysu Graddfa Effaith Strôc, (Duncan, 2003), ynghyd â'r LegA, (Ashford et al, 2016) ac ArmA, (Ashford et al, 2015) yn y flwyddyn i ddod. Defnyddir yr offerynnau hyn yn helaeth gyda'r boblogaeth strôc ddwyieithog yng Ngogledd Cymru.

Bellach mae 45 o fesurau iaith Gymraeg wedi'u rhestru ar wefan ryngweithiol Mesurau Iechyd Cymraeg
<http://www.micym.org/llais/static/index.html>



Gofal Cymdeithasol


NWORD sy'n rhoi arweiniad strategol ym maes gofal cymdeithasol fel rhan o Wasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru gyfan. Mae heriau'n parhau o ran gofynion cymhwysedd yn y maes hwn, gan nad yw llawer sy'n cysylltu â'r RDCS yn gweithio tuag at geisiadau cyllido.

O ganlyniad, mae Dr. Gill Toms, ein Harweinydd Gofal Cymdeithasol, wedi cynhyrchu canllawiau methodoleg gofal cymdeithasol o ran ymwneud â'r cyhoedd, gan dynnu sylw at rai o'r dulliau ansoddol a chyfranogol a ddefnyddir mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Mae Gill wedi cyfrannu at bum project sy'n cael eu datblygu yng nghyswllt gofal cymdeithasol, a rhoi cyngor yn hynny o beth, ac ar gyfer un gais am grant Llwybr at Bortffolio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, mae llawer o'r gefnogaeth y mae ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gofyn amdani ar gyfer gweithgareddau ar raddfa fach neu'n fewnol. Dim ond un cais eleni a geisiodd ddatblygu eu cynnig am gyllid ymchwil. Daw mwyafrif yr ymholiadau gan fyfyrwyr Meistr neu PhD nad ydynt yn gymwys i gael cymorth RDCS. Mae Gill hefyd wedi cynnal sesiwn hyfforddi ar ymchwil gofal cymdeithasol i'n haelodau PARC-Bangor.

Rydym ni'n ymwneud ag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cael telegynadledau chwarterol rheolaidd. Mae'r Cyfarwyddwr bellach yn rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer 'Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru' ac mae ar y Grŵp Ymgynghorol ar gyfer 'Datblygu'r Gweithlu a Sefydliadau'.

LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL


Mae metrigau allweddol ein perfformiad cronnus ar gyfer 2015-2019 wedi'u crynhoi isod:



o grantiau
wedi'u dyfarnu
(cyfradd llwyddiant
o 36.8%)




o grantiau'n cael
eu hariannu rhwng
2015-2018



wedi'u cyhoeddi mewn
cyhoeddiadau a adolygir
gan gymheiriaid (ffactor
effaith cyfartalog = 3.07)



wedi cael ei gyflwyno
ar hyn o bryd



Ein hadenillion ar
fuddsoddiad i Gymru yw...

2.56:1



Cynhyrchwyd incwm
masnachol o **£250k**

Mae'r holl Fetrigau Perfformiad
Allweddol a ddatblygwyd
yn anwythol yn yr

Uned
yn
wyrdd



PARC-BANGOR

Un o lwyddiannau mwyaf NWORDH yn 2018 fu lansio PARC-Bangor. Sefydlwyd PARC-Bangor fel fforwm NWORDH ar gyfer cynnwys y cyhoedd ym mis Mehefin 2018.

Mae PARC-Bangor yn helpu i sicrhau bod syniadau ymchwil yn cael eu datblygu gydag aelodau o'r cyhoedd, er mwyn creu cais cyllido cadarn a pherthnasol.

Fe wnaethom gynnal digwyddiad "Dweud eich Dweud" i lansio PARC-Bangor a dathlu pen blwydd y GIG yn 70 oed a phen blwydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn 3 oed. Daeth nifer dda o bobl i'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys rhai o bob rhan o ogledd Cymru.

Cafodd PARC-Bangor ei henw o ganlyniad i Uned Treialon Abertawe a greodd y Pwyllgor Cyngor Poblogaeth ar gyfer Ymchwil, (PARC), a bu i ni fodlu ein grŵp cyfranogiad cyhoeddus ein hunain ar hwn.

Gwahoddir pob aelod i bob cyfarfod ac mae pawb yn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd cyfranogi posibl yn rheolaidd.

Mae PARC-Bangor yn cysylltu'n weithredol â Rebecca Burns o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sydd wedi mynychu tri o'n pedwar digwyddiad hyd yn hyn i roi manylion am sut y gall y rhwydwaith cynnwys y cyhoedd roi cefnogaeth a hyfforddiant i bobl sydd â diddordeb mewn cyfrannu at y broses ymchwil.

Cyflwynir yr holl astudiaethau newydd sy'n cael eu datblygu ac sy'n cael eu harwain gan NWORDH i'r grŵp. Gwahoddir aelodau i ddod yn gynrychiolwyr PPI a chyfrannu at ddatblygu'r astudiaeth o'r camau cynharaf.

atblygwyd cynllun cyfathrebu gyda'r grŵp, dan arweiniad aelodau unigol PARC-Bangor. Cwblhawyd archwiliad PPI yn NWORDH gyda chyfraniad gan ddau aelod PARC-Bangor. Ers mis Mehefin 2018, mae chwe astudiaeth wedi elwa o fewnbwn PARC-Bangor gydag un aelod yn dod yn Gyd-Ymgeisydd ar gais cyllid diweddar i'r HTA.

Pwrpas PARC-Bangor yw:

1. Rhoi dealltwriaeth a safbwynt cyhoeddus i ddatblygu cwestiynau ymchwil;
2. Sicrhau bod dogfennau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag astudiaeth yn hawdd i'w deall i gleifion a'r cyhoedd sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil;
3. Trafod a rhoi sylwadau ar y broses ymchwil a ddisgrifir mewn ceisiadau cyllido i sicrhau bod safbwyntiau cleifion yn cael eu cynnwys; a
4. Darparu 'llais i gleifion' ar gyfer Pwyllgor Gweithredu NWORDH.

Mae ein hail ddigwyddiad "Dweud eich Dweud" yn cael ei gynnal ar 11 Gorffennaf 2019.



CYMUNED O YSGOLHEIGION

Yn ystod 2018-19 fe wnaethom ddatblygu ein menter Cymuned o Ysgolheigion. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng NWORDTH, Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae llawer o glinigwyr yn ei chael hi'n anodd gwybod ble i ddechrau mewn ymchwil, felly nod y fenter hon yw helpu pobl a allai fod â diddordeb mewn chwarae mwy o ran. Rydym yn treialu'r project Cymuned o Ysgolheigion ar ran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, fel strategaeth bosibl ledled Cymru i hyrwyddo clinigwyr 'Cyntaf i Ymchwil'.


Dechreuodd y project gyda chyfarfod cydgynhyrchu ym mis Rhagfyr 2018, lle daethom â nifer o glinigwyr â diddordeb ynghyd i ddarganfod beth roedd arnynt ei eisiau. Bu i ni drafod beth fyddai anghenion, pwrpas, gwerthoedd a chanlyniadau'r rhwydwaith newydd. Yn dilyn hynny, rydym wedi cynnal gweithdy cydgynhyrchu arall i freinio'r syniadau a gynhyrchwyd yn y gweithdy cyntaf.

Nod 'Cymuned o Ysgolheigion' yw datblygu amgylchedd cefnogol wedi'i seilio ar gymheiriaid i helpu i ddatblygu diddordeb clinigwyr mewn ymchwil iechyd cymhwysol. Bydd yn darparu amgylchedd cefnogol i glinigwyr lleol o bob math o arbenigeddau ledled gogledd Cymru, gan gynnwys meddygon, deintyddion, nyrsys a phob gweithiwr iechyd proffesiynol cysylltiedig arall. Bydd aelodau'r rhwydwaith yn cael sgiliau ysgrifennu grantiau ac yn dysgu am arweinyddiaeth ymchwil er mwyn meithrin gallu. Bydd hefyd yn hwyluso rhwydweithio a datblygiad personol trwy raglen fentora.



LLEDAENU AC YMGYSYLLTU

Mae wedi bod yn flwyddyn arbennig o brysur i ni o ran gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu. Rydym wedi hyrwyddo a dathlu pen blwydd y GIG yn 70 a phen blwydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn dair oed. Rydym wedi cymryd rhan yn ymgyrch cyfryngau cymdeithasol "12 diwrnod o ymchwil" Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a hefyd wedi dathlu Diwrnod Rhyngwladol Treialon Clinigol Rhyngwladol yn ddiweddar.



Ym mis Medi 2018, lanswyd ein logo newydd ac mae ein brandio wedi cael derbyn da iawn.

Mae ein gweithgaredd ar Twitter wedi cynyddu'n sylweddol diolch i benodiad Dr Karolina Rusiak, sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu.

- 317 o drydariadau i gyd
- 162,774 o argraffiadau
- 1,294 o ymgysylltiadau
- Cafwyd 90 o ddilynwyr newydd

Mae'r potensial i PARC-Bangor gymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgysylltu a phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol yn estyniad diddorol o'u rôl. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried, er mwyn helpu i hyrwyddo NWORD i'r cyhoedd ehangach.



EDRYCH YMLAEN

1

Cynnal ein cyfradd llwyddiant grantiau gyfredol

Byddwn yn ceisio cynnal ein cyfradd llwyddiant grantiau gyfredol (36% o'r amlinelliad), sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ceisiadau NETSCC.

2

Weithgar o ran ehangu ein projectau arfaethedig

Byddwn yn weithgar o ran ehangu ein projectau arfaethedig a hyrwyddo ein twf trwy dargedu cydweithredwyr ledled y DU gyda chynllun gweithredol o ddatblygu busnes mewn meysydd o gryfder strategol allweddol.

3

Datblygu dau rwydwaith academaidd newydd

Byddwn yn ceisio datblygu dau rwydwaith academaidd newydd, gan ddod ag arbenigedd ynghyd a datblygu gallu ar gyfer cymwysiadau newydd (gerodontoleg a sglerosis ymledol).

7

Gosodiadau iechyd cymhleth

Byddwn yn archwilio rôl fframweithiau gweithredu wrth gynllunio a chynnal treialon mewn gosodiadau iechyd cymhleth.

8

Ddatblygu ein staff

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein staff trwy gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant trawsddisgyblaethol.

9

Hyrwyddo'r RDCS

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r RDCS, a gobeithiwn allu cefnogi mwy o geisiadau grant trwy'r RDCS yn y flwyddyn i ddod.

13

Cynnal ansawdd ein prosesau mewnol

Byddwn yn cynnal ansawdd ein prosesau mewnol fel bod astudiaethau'n parhau i gyd-fynd ag amserlenni a thargedau.

4**Cymuned o Ysgolheigion**

As a direct result of the Community of Scholars pilot and Bangor University's Clinical Academic Pathway, we will also be building collaborations with clinicians within BCUHB.

5**Cynyddu ein cynnyrch methodolegol**

Byddwn yn cynyddu ein cynnyrch methodolegol ac yn hyrwyddo ein gwybodaeth gynyddol o Astudiaethau o fewn Treial.

6**Gwaith archwilio**

Byddwn yn cyhoeddi gwaith archwilio ar ddefnyddio mesurau canlyniadau cyfansawdd mewn treialon ymyriadau cymhleth. Byddwn hefyd yn datblygu llif gwaith ar ddelweddu a dehongli tystiolaeth.

10**LLAIS dilysu'n**

Bydd LLAIS yn cyfieithu ac yn dilysu'n ieithyddol ddau fesur canlyniadau a adroddwyd gan gleifion yn ystod y flwyddyn i ddod.

11**Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

Bydd LLAIS yn parhau â'i waith i gynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol trwy ei weithgareddau ymwybyddiaeth o iaith a thrwy'r RDCS.

12**PARC-Bangor**

Bydd PARC-Bangor yn ganolog i'n holl weithgareddau a bydd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i wneud cyfraniad ystyrlon i'n portffolio ymchwil a chynnal yr uned.

CASGLIADAU

Mae 2018-2019 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i dîm NWORDH. Rydym wedi cynyddu ein cyfradd llwyddiant ac adenillion ar fuddsoddiad am flwyddyn arall eto.

Hoffwn longyfarch a diolch i holl staff NWORDH am eu gwaith caled a'u llwyddiannau eleni. Mae diolch hefyd yn ddyledus i'n cydweithwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Bangor a hefyd ein cyllidwyr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Rydym yn ddyledus i'n rhan-ddeiliaid allanol am eu cyfraniad, a diolch yn arbennig eleni i'n haelodau PARC-Bangor sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'r Uned.

Rydym yn edrych yn barhaus ar ffyrdd o ddatblygu, tyfu a gwella'r Uned ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n holl dîm, cydweithwyr a rhan-ddeiliaid yn y flwyddyn i ddod i adeiladu ar ein llwyddiannau cyfredol.



Yr Athro Paul Brocklehurst
Cyfarwyddwr, Uned Treialon Clinigol NWORDH





North Wales Organisation for
Randomised Trials in Health & Social Care
Sefydliad Hap-Dreialon Iechyd
a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru

NORTH CTU
Bangor University
Y Wern,
Normal Site,
Holyhead Road,
Bangor,
Gwynedd,
LL57 2PZ

01248 388095
karen.law@bangor.ac.uk

nworth-ctu.bangor.ac.uk